COFNODION DRAFFT

Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, 14 Tachwedd, Castell y Waun, Wrecsam.

Yn bresennol		
Aethne Cooke (Cyflwyno papur)	AC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Andy Schofield ar ran Chris Mills	AS	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Claire Fowler (Siaradwraig Wadd)	CF	Llywodraeth Cynulliad Cymru
David Cowley (Cyflwyno papur)	DC	Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Gogledd Cymru
David Parker (Cyflwyno Papur)	DP	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dori Gomez Levitt (Gwestai)	DG	ARENA
Dusitaporn Thomas	DT	Dŵr Cymru
Eluned Edwards (Cyfieithydd)		Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Emma Broad (Gwestai)	EB	Swyddog Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Gareth Ellis (Cyflwyno papur)	GE	Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth De Cymru
Glenda Thomas	GT	Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt
Hazel Drewett (Cyflwyno papur)	HD	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Helen Buckingham	HB	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Joanna Robertson (Gwestai)	JR	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Julia Korn	JK	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Juliet Hynes	JH	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Liz Howe (Cyflwyno papur)	LH	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Michael Dunn	MD	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Michelle Bromley	MBY	Comisiwn Coedwigaeth

		Cymru
Mike Bruford	MB	Prifysgol Caerdydd
Niall Moore (Cyflwyno papur)	NM	Cyfarwyddiaeth rhywogaethau estron
Nigel Ajax-Lewis (Cyflwyno papur)	NAL	Ymddiriedolaethau Natur
Pete Charleston (Cyflwyno papur) (presennol yn y prynhawn)	PC	Heddlu Gogledd Cymru
Robin Woodyatt	RW	CLILC/ Cyngor Caerffili
Rod Gritten	RG	Parciau Cenedlaethol Cymru
Roy Tapping (Cyflwyno papur)	RT	Canolfannau Cofnodion Lleol
Sean McHugh	SMH	Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Steve Moon	SM	Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol/ Pen-y-bont ar Ogwr
Tim Stowe	TS	RSPB
Tom Jones ar ran Ieuan Roberts	TJ	Cymdeithas Edward Llwyd
Tom Lunn (Gwestai)	TL	ARENA
Tony Thomas (Siaradwr gwadd)	TT	Cyngor Astudiaethau Maes
Trevor Dines	TD	Plantlife
Tristan Hatton-Ellis (Cyflwyno papur)	THE	Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Ymddiheuriadau	
Adam Rowe	Canolfannau Cofnodion Lleol
Chris Mills	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cliff Benson	Ymddiriedolaeth y Môr
David Bullock	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
David Jenkins	Coed Cymru
Deborah Hill	CLILC/Abertawe
Diana Reynolds	Llywodraeth Cynulliad Cymru / Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Graeme Hays	Prifysgol Abertawe
Graham Oliver	Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol

	Cymru
Hannah Pitt	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ieuan Roberts	Cymdeithas Edward Llwyd
Ioan Jenkins	BCTV
Jill Thomas (Siaradwraig wadd)	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Lia Moutselou	Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru
Nick Bialynicki-Birula	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Peter Birch	Dyfrffyrdd Prydain
Steven Atkins	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru
Steven Bromley	Groundwork

Cyflwyniad 1: Partneriaeth *Real World* a Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth (Tony Thomas a Claire Fowler)

Dogfennau ar Ddysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth a allai fod o ddiddordeb:

- 'Common understanding'
- 'Making the most of first hand experiences of nature and the environment' (dogfen gyfarwyddyd i athrawon)
- 'A review of research on outdoor learning' (adolygiad gan NFER/Kings College a gyhoeddwyd gan y Cyngor Astudiaethau Maes – 2004)

Cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru os hoffech gael copi o'r ddwy ddogfen gyntaf.

Trafodaeth: Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth

Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud, beth mae angen iddi ei wneud a beth y gall Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei wneud i gefnogi Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth?

TT - Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond nid oes mesur llinell sylfaen ar hyn o bryd o'r sefyllfa bresennol gyda golwg ar Ddysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth yng Nghymru.

Angen datganiad sefyllfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar bob ffactor sy'n rhwystro Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth.

Angen sicrhau dysgu o safon uchel, angen i ESTYN asesu Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth hyd at 19 oed.

1. **Cam Gweithredu i Bawb: gadewch i ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wybod os yw'ch sefydliad chi'n ymwneud â Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth ac fe rown ni'r manylion i Tony a Claire.**

Byddai o gymorth pe gallech ddosbarthu'ch sesiynau Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth fel a ganlyn:

- **hyd at dair awr = un sesiwn neu ½ diwrnod**
- **3 i 6 awr = dau sesiwn neu 1 diwrnod**
- **6 awr a mwy = 3 sesiwn neu 1½ diwrnod.**

Mae Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth eisoes yn rhan o'r cyfnod sylfaen, gyda 50% o'r dysgu i fod i ddigwydd y tu allan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion y cyfan sy'n digwydd yw bod gwersi arferol yn cael eu cynnal y tu allan. Mewn achosion eraill datblygwyd cynlluniau Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth sydd wedi'u teilwrio'n briodol. Mae angen gweithio gyda'r byd addysg amgylcheddol er mwyn datblygu cynlluniau Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth a gwneud y gorau o'r cyfle y mae hyn yn ei gynnig.

Gwnaethpwyd sylwadau ynglŷn â pha mor anodd yw cael digon o athrawon da mewn ysgolion yn y lle cyntaf. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cael athrawon addas i fynd â'r plant allan i ddysgu, oherwydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar Ddysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth mae angen i'r athrawon eu hunain fod â diddordeb. Roedd TT yn cytuno bod angen i Ddysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth fod yn rhan annatod o hyfforddiant athrawon.

Awgrymodd TD ei bod yn bosib y byddai cyrff anllywodraethol bach fel Plantlife yn hoffi cyfrannu, ond na allant ymwneud ar raddfa fawr. Fodd bynnag, byddent yn barod i gynnig syniadau ac awgrymu enwau pobl y gellid cysylltu â hwy. Cyfeiriodd SM at werth gweithio gyda grwpiau o Geidiau a Sgowtiaid.

Dylai'r ddogfen Cymru'n Un gynnig cyfle i gysylltu Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth â nodau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis gweithgareddau gwella iechyd. Mae Cymru'n Un yn cynnwys llawer o ymrwymiadau trawsbynciol, a byddai'n dda o beth pe gallai'r gweinidogion sy'n ymwneud ag addysg a'r amgylchedd ymwneud â Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth. Mae Jane Hutt yn ymwneud â'r maes yn barod a bydd yn lansio'r ddogfen 'Common Understanding' ym mis Rhagfyr.

Mae mynediad rhwydd at fannau glas yn bwysig yng nghyswllt Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth. Mae angen i gynlluniau defnydd tir ystyried pa mor rhwydd yw hi i ysgolion ddefnyddio mannau glas.

2. **Cam Gweithredu i Bawb: unrhyw un a fyddai'n hoffi cael mwy o wybodaeth am Ddysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth neu gopïau o'r ddogfen i roi eu henwau i ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.**

Papur 4: Adran 42 Rhestr Blaenoriaeth Cymru

Yn dilyn y cyfarfod bydd fersiwn diwygiedig o restr Adran 42 a dogfennau eraill yn cael eu rhoi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Roedd y grŵp llywio'n cytuno y dylai rhywogaethau sydd wedi dod oddi ar restr y DU, gan fod eu poblogaeth yn ymddangos yn iawn, gael eu rhoi ar restr dros dro lle gellid cadw llygad ar eu statws.

3. **Cam Gweithredu i Bawb: sylwadau yn nodi a yw'r rhestr adran 42 arfaethedig yn foddhaol (ymateb i Liz Howe [l.howe@ccw.gov.uk]) erbyn 30 Tachwedd 2007.**

Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhai rhywogaethau a chynefinoedd ychwanegol y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn hoffi eu hychwanegu at adran 42. Byddent yn hoffi cael sylwadau yn nodi a ddylai'r rhain gael eu cynnwys ai peidio. Os nad ydych yn cytuno gofynnir ichi ddweud pam.

4. **Cam Gweithredu i LH: Bydd Liz yn ysgrifennu e-bost rhagarweiniol yn egluro'r broses ymgynghori. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon y wybodaeth at aelodau'r Grŵp Llywio a'r bartneriaeth ehangach.**

5. **Cam Gweithredu i Bawb: sylwadau ynglŷn ag Atodiad 3, cynnwys rhywogaethau a chynefinoedd ychwanegol, i'w hanfon at Liz erbyn 30 Tachwedd 2007 [l.howe@ccw.gov.uk].**

SYLWADAU YNGLŶN Â'R RHAI SYDD AR Y RHESTR YN UNIG. DIM AWGRYMIADAU NEWYDD. BYDD Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN YN GYFRIFOL AM Y BLEIDLAIS FWRW OS BYDD ANGEN.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen adran 42 hefyd yn nodi'r tri phrif gam gweithredu i gyd-fynd â phroses gyfeirio'r DU. Pan fydd cytundeb ynglŷn â'r rhestr adran 42 bydd ar gael fel pdf ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac fel copi caled. Bydd cronfa her y rhywogaethau, dan ofal y Cyngor Cefn Gwlad, hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhestr.

Dylai partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol o leiaf nodi rhywogaethau ar y rhestr sydd yn eu hardal hwy, ond eu cyfrifoldeb hwy yw dewis yng nghyswllt pa rai y maent am gymryd camau. Mae'r Ganolfan Gofnodion Leol yng Ngogledd Cymru'n defnyddio'i system i ddangos i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a yw rhywogaethau sydd ar y rhestr yn bresennol yn yr ardal, ond mae'r wybodaeth yn dibynnu ar y cofnodion a ddarparwyd i'r Ganolfan. Mae angen mwy o ddata ynglŷn ag anifeiliaid di-asgwrn-cefn a bryoffytau yn fwyaf arbennig.

Pwyllgor Sefydlog y DU (eitem a ddygwyd ymlaen ar yr agenda)

Proses rag-gynllunio rhestr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth: Argymhellodd MD a DP i'r Pwyllgor Sefydlog bod angen i'r broses rag-gynllunio fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae'r 4 gwlad yn gwneud pethau.

Roedd Pwyllgor Sefydlog y DU yn cytuno mai'r argymhelliad i'r gwledydd oedd sefydlu:

- Grwpiau cynefinoedd ar gyfer pob gwlad (bydd pob gwlad yn cylchredeg drafft yn nodi'r hyn y disgwylir i bob un ohonynt ei wneud).

6. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth: gosod amlinelliad drafft o grŵp cynefinoedd Cymru ar agenda'r Grŵp Llywio nesaf.**
    - Arbenigwyr rhywogaethau ym mhob gwlad; bydd y rhain yn ethol partneriaid arweiniol os yw hynny'n briodol. Bydd arbenigwyr y gwledydd yn cytuno ar dargedau ar gyfer rhywogaethau.
    - Camau gweithredu ehangach ar gyfer rhywogaethau. Dylai'r rhain fod yn berthnasol i gynefinoedd hefyd, a dylid cael gweithredwyr arweiniol ym mhob grŵp gwlad.

Hefyd wedi gofyn i'r Grŵp Adroddiadau a Gwybodaeth am Fioamrywiaeth edrych ar fater meini prawf llwyddiant er mwyn asesu'r broses. Mae'r Grŵp hefyd yn mynd i lunio cynigion ar gyfer ymchwil a monitro disgwyliadau.

7. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth: anfon copi o gofnodion Pwyllgor Sefydlog y DU at aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru pan fyddant ar gael.**

Papur 5: Canllawiau ar Safleoedd Bywyd Gwyllt

Mae drafft arall (fersiwn 3) yn cael ei baratoi. Bydd y fersiwn hwn i'w weld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru erbyn dydd Gwener 16 Tachwedd. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn hyd 14 Rhagfyr 2007. Yn dilyn hynny bydd angen i'r canllawiau gael eu cymeradwyo gan Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

8. **Cam Gweithredu i Bawb: ymgynghori ar y drafft diweddaraf o'r Canllawiau ar Safleoedd Bywyd Gwyllt. Sylwadau erbyn 14 Rhagfyr 2007 os gwelwch yn dda (i Nigel Ajax-Lewis: n.ajaxlewis@welshwlidlife.org)**

TS – I'w ganmol am gynhyrchu gwaith swmpus iawn

Papur 6: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canlyniad 21 (cael safleoedd dynodedig i gyflwr ffafriol)

Mae'r cynllun cyfathrebu / ymgysylltu wedi cael ei ddrafftio er mwyn cydlynu'r negeseuon sydd i'w rhoi o fewn sefydliadau unigol a rhwng gwahanol sefydliadau.

Pwynt penderfyniad 2: Roedd y Grŵp Llywio'n cytuno bod angen cynllun cyfathrebu.

Pwynt penderfyniad 3: Barn ynglŷn â'r prif negeseuon:
Angen ychwanegu defnyddio BARS at y dulliau cyfathrebu arfaethedig

9. **Cam Gweithredu i HD – ychwanegu cyfeiriad at BARS at y dulliau cyfathrebu arfaethedig**

Gellid ychwanegu at y trydydd pwynt bwled sy'n rhestru negeseuon pwysig bod popeth posib yn cael ei wneud i gael arian er mwyn sicrhau cyflwr ffafriol.

Holwyd a oedd trefn y broses yn briodol; dylid gwneud yn siŵr bod camau gweithredu a gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n glir – sut rydym yn mynd i sicrhau cyflwr y safleoedd, ac a ddylid ymestyn y broses a throsglwyddo gwybodaeth amdani? Os nad yw'r camau gweithredu'n barod yna dylem ganolbwyntio ar y cynllun gweithredu yn hytrach nag ar gyfathrebu. Fodd bynnag, nodwyd bod y cynllun cyfathrebu ar gyfer partneriaid yn hytrach na thirfeddianwyr preifat ar hyn o bryd. Mae'n bwysig bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd ac nad oes unrhyw beth annisgwyl.

10. **Cam Gweithredu i Bawb: anfon unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r Negeseuon Pwysig at Hazel Drewett (H.Drewett@ccw.gov.uk) erbyn 7 Rhagfyr 2007.**

Pwynt penderfyniad 4: Aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ystyried eu rôl wrth gyfrannu at y targedau gyda golwg ar gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio:- Argymhellodd TS y dylid cael amserlen ar gyfer cysylltu â sefydliadau er mwyn iddynt allu cynllunio cyllidebau o amgylch y camau gweithredu y gallent gyfrannu atynt.

Pwynt penderfyniad 5: Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ystyried sut i sicrhau adnoddau ar gyfer y cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu o safbwynt cyllid ac amser staff.

11. **Cam Gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i Gyngor Cefn Gwlad Cymru: ystyried pwynt penderfyniad 5 yn eu cyfarfod nesaf.**

Pwynt penderfyniad 6: Does dim angen mynd dros ben llestri gyda'r brandio, ond byddai'n fanteisiol cael gwell teitl na Chanlyniad 21.

12. **Cam Gweithredu i Bawb: unrhyw syniadau ar gyfer gwell teitl i Hazel erbyn 7 Rhagfyr 2007 (H.Drewett@ccw.gov.uk)**

Papur 7: Rhywogaethau Estron

Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ar lefel Prydain yn cynnwys y canlynol: sefydlwyd trefniadau dadansoddi risg ar gyfer y llynedd; sefydlwyd bwrdd profi syniadau ar gyfer rhanddeiliaid; mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar strategaeth Prydain i'w gweld ar wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron http://www.nonnativespecies.org/.

Mae fforwm blynyddol nesaf y rhanddeiliaid yn debygol o fod yng Nghymru.

Roedd y Grŵp Llywio'n cytuno bod angen i rywogaethau estron fod yn weithgor penagored yn hytrach na grŵp gorchwyl a gorffen gan y bydd angen camau gweithredu parhaus yn ystod y blynyddoedd nesaf.

13. **Cam Gweithredu i Bawb: os hoffech wirfoddoli i wasanaethu ar y gweithgor rhywogaethau estron cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddatgan eich diddordeb (Julia Korn [J.Korn@ccw.gov.uk]) erbyn 30 Tachwedd 2007. Dangoswyd cryn dipyn o ddiddordeb yn barod ac ni fydd llawer o lefydd ar gael. Dewisir aelodau'r grŵp o ystod mor eang ag sy'n bosib o bartneriaid.**

O safbwynt nodau a chylch gwaith cyffredinol y gweithgor, awgrymwyd y dylid ychwanegu cylch polisi. Nodwyd hefyd y byddai'n bwysig sicrhau nad yw'r camau gweithredu'n cael eu colli wrth iddynt gael eu trosi'n gylch gwaith ar gyfer y grŵp.

Dylid hybu'r camau gweithredu drwy gynnwys cynrychiolwyr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar y gweithgor yn ogystal â chynrychiolwyr cyrff anllywodraethol, sefydliadau'r Llywodraeth a diwydiannau. Byddai hyn yn sicrhau dull gweithredu sy'n cael ei gydlynu ar lefel Cymru a allai uno'r cynlluniau lleol sy'n bodoli'n barod ledled Cymru.

14. **Cam Gweithredu i NM: NM i anfon enwau pobl i gysylltu â hwy er mwyn cael cynrychiolwyr diwydiannau at JK.**

Cyfeiriodd DP at y rôl bwysig sydd gan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron i'w chwarae wrth gydlynu ymdrechion grwpiau Gwledydd er mwyn osgoi dyblygu diangen.

Oherwydd y cysylltiad daearyddol, mae Gogledd Iwerddon yn cyfuno â gweriniaeth Iwerddon ar gyfer materion yn ymwneud â Rhywogaethau Estron ac mae Niall Moore hefyd yn eistedd ar grŵp llywio Iwerddon.

Papur 8: Natur Cymru

Cynhyrchir Natur Cymru gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac mae angen cefnogaeth gan bartneriaid er mwyn cael mwy o danysgrifwyr i'r cyhoeddiad llwyddiannus hwn.

15. **Cam Gweithredu i Bawb: gadewch i'r ysgrifenyddiaeth wybod (os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod) os oes modd ichi gefnogi unrhyw rai o gynigion y papur er mwyn helpu i gynyddu nifer tanysgrifwyr Natur Cymru.**

DP – mae'n debyg ei bod yn bryd i danysgrifiadau preifat godi. Cyn belled ag y mae sefydliadau yn y cwestiwn, mae gan lawer o staff eu tanysgrifiadau eu hunain ac ni fyddem am droi'r rhain ymaith drwy gynyddu'r tanysgrifiad i gyfateb i faint y cwmni.

Mae cymorth â gwaith marchnata yn gyfraniad pwysig gan aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ac mae'n cynnwys amser staff a chyngor mewn rhai achosion.

Papur 9: Camau Gweithredu ar gyfer y Môr a Dŵr Croyw

Camau gweithredu arfaethedig 10 ac 11: Dyfroedd sy'n llifo a merddwr – ewtroffigedd gwasgaredig

Mae rhywfaint o waith yn cael ei wneud yn barod yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae 2 brosiect peilot yn edrych ar ffyrdd o ehangu dulliau ffermio sy'n sensitif i ddalgylch afonydd yng nghyswllt y cynllun datblygu gwledig. Cyhoeddir dogfen ymgynghorol ar hyn y flwyddyn nesaf.

Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru dirddaliadau ar lannau afonydd yn barod. Mae'r strategaeth ar weithgareddau hamdden sy'n gysylltiedig â dŵr eisoes wedi nodi bod rhannau sylweddol o afonydd Cymru yn eiddo cyhoeddus. Teimlai'r Grŵp Llywio ei bod yn fwy priodol rhoi blaenoriaeth i reoli tir yn hytrach na phrynu tir.

16. **Cam Gweithredu i THE: Yr RSPB yn gofyn am gael eu hepgor o'r cam gweithredu sy'n ymwneud â phrynu tir.**

Cam gweithredu arfaethedig 12: Asideiddio a gwaddodi o ganlyniad i goedwigaeth
Ymddiheurodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru nad oedd wedi gwneud dim ynglŷn â'r cam gweithredu hwn eto, ond cynigodd gyfathrebu'n uniongyrchol â'r Cyngor Cefn Gwlad ynglŷn ag ef.

Cam gweithredu arfaethedig 13: Misglod perlog
Awgrymwyd bod angen gwneud mwy o waith ymchwil i ecoleg misglod perlog cyn eu rhoi yn ôl yn yr afonydd.

> THE - mae cynnig a methu'n rhan o'r gwaith ymchwil a monitro yn y rhaglen ailgyflwyno. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n ariannu PhD yn ymwneud â hyn (gweler Natur Cymru am fanylion).

Cam gweithredu arfaethedig 14: Cimwch yr afon
Sylw ynglŷn â defnyddio plaladdwyr i ladd cimwch yr afon America. Rhoddwyd sicrwydd mai dim ond mewn pyllau dŵr lle mae cimwch yr afon America wedi codi y defnyddiwyd plaladdwyr, a bod y pyllau dŵr hyn wedi cael eu hynysu oddi wrth yr afon.

Cam gweithredu 15: Difrod gan dda byw
Cyfeiriwyd at afon Gwy, ond gellid ymestyn y camau gweithredu i bob afon yng Nghymru e.e. y prosiect afonydd byw a gwaith sydd dan ofal Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Gellid defnyddio Panelau Cyswllt Basnau Afonydd i ddynodi ardaloedd a phartneriaid priodol. Dylai fod yn fuddiol er mwyn addysgu ffermwyr ynglŷn â phwysigrwydd rheoli trochdrwyth defaid yn ofalus.

Cam gweithredu 16: Llyfrothen dŵr croyw Asia
Rhywogaeth estron addurnol. Dim ond yn llyn Llanelli ar hyn o bryd. Nid yw'n safle risg uchel, ond mae pryder y gallai gael ei drosglwyddo i safleoedd eraill. **Blaenoriaeth uchel i gael gwared ar y pysgodyn hwn tra mae'n dal ar un safle yn unig.**

17. **Cam Gweithredu i JK: Ychwanegu camau gweithredu yn ymwneud â rhywogaethau estron o'r camau gweithredu yn ymwneud â Môr a Dŵr Croyw at raglen waith gweithgor rhywogaethau estron Cymru.**

Cam gweithredu arfaethedig 17: Dyfroedd sy'n llifo, trochdrwyth defaid
Mae'r math penodol hwn o drochdrwyth defaid yn wenwynig iawn i anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw mewn dŵr os yw dafad sydd wedi cael ei throchi yn ddiweddar yn digwydd mynd i afon. Mae'n llygrydd cudd. Mae'r trochdrwyth yn lladd yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ac mae'r gadwyn fwyd wedyn yn cael ei sigo o'r gwaelod i fyny. Mae gweithgor sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â chynhyrchwyr yn ymchwilio i'r mater hwn yn barod.

18. **Cam Gweithredu i AS: Holi beth yw enw'r gweithgor a throsglwyddo'r wybodaeth i'r Grŵp Llywio.**

Cam gweithredu arfaethedig 18: Llynnoedd

Ychwanegu llynnoedd priodol lle bo'n bosib. Mae llawer o bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gwneud hyn yn barod. Dylid ystyried camau gweithredu er mwyn cynnwys y mater hwn mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Cam gweithredu arfaethedig 19: Gwaddodion afonol sydd yn y golwg
Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau yn erbyn y cam gweithredu hwn.

Eitemau 10 ac 11: Cyflwyniad a thrafodaeth ar y Mesur Morol

Roedd Jill Thomas wedi ymddiheuro na allai fynychu'r cyfarfod ar fyr rybudd.
Bydd y Mesur Morol Drafft yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2008, felly gellid ei drafod ym mhedwerydd cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Chwefror.

19. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth: Cynnwys trafodaeth ar y Mesur Morol ar agenda Grŵp Llywio 4.**

Papur 12: Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt

Mae rhai o flaenoriaethau'r DU ar gyfer Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt yn amherthnasol iawn i Gymru, felly mae'r Cyngor Cefn Gwlad, ynghyd â'r heddlu, wedi datblygu cyfres o flaenoriaethau ar gyfer Cymru sydd i'w hychwanegu at flaenoriaethau'r DU yng Nghymru.

Mae rôl i'r heddlu yng nghyswllt y flaenoriaeth sy'n ymwneud â llosgi anghyfreithlon, ond maent wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymwneud â hyn hefyd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n cydnabod cyfrifoldeb Awdurdod yr Heddlu dan Ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd a Chymunedau Gwledig.

MB – wedi codi mater proffiliau DNA adar ysglyfaethus a'r posibilrwydd o ddileu gofyniad atodlen 4 sy'n ymwneud â chofrestru adar ysglyfaethus caeth.

PC – Mae heddlu Cymru yn gwrthwynebu hepgor Atodlen 4 gan nad yw DNA ei hun yn ddigon. Mae angen ichi allu dynodi tras hefyd.

Os bydd DEFRA yn penderfynu hepgor Atodlen 4, bydd y Cynulliad yn ystyried y mater yng Nghymru.

20. **Cam Gweithredu i Bawb: yr ysgrifenyddiaeth i gasglu barn ynglŷn â dileu gofyniad atodlen 4 sy'n ymwneud â chofrestru adar ysglyfaethus a throsglwyddo'r wybodaeth i Mike Dunn er mwyn rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru.**

Nid yw'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn gweld rhywogaethau estron fel blaenoriaeth yng nghyswllt troseddau yn erbyn bywyd gwyllt. Fe awgrymodd yr heddlu bod angen gwneud y ddeddfwriaeth yn llymach, ond nid oedd y Cydbwyllgor/DEFRA am symud ymlaen i'r cyfeiriad hwnnw.

- **Mae'r adolygiad o Atodlen 9 (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad) a'r adolygiad o Adran 50 wedi'u cyhoeddi i ddiben ymgynghori ac maent i'w gweld ar wefan DEFRA ar hyn o bryd.**

http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/naturalenvironment.htm ***Y dyddiad cau yw 31 Ionawr 2008***

Gwirfoddolodd y Canolfannau Cofnodion Lleol i siarad yn y Gynhadledd Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt ar ran Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (Roy Tapping neu Adam Rowe).

Papur 13: Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Roedd Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru 2007 wedi bod yn llwyddiannus; yn ôl y ffurflenni adborth roedd pobl yn awyddus i barhau â'r ffurf 2 ddiwrnod, a chael gweithdai.

MD – adroddodd nad oedd Pwyllgor Sefydlog y DU wedi penderfynu a fyddai cynhadledd y DU yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf, a'i bod yn bosib mai bob dwy flynedd y byddai'n cael ei chynnal. Cytunodd Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y dylai Cymru fynd yn ei blaen gyda'r gynhadledd y bwriedid ei chynnal ar 10-11 Medi 2008 yn Aberystwyth. Pe bai'r sefyllfa'n newid, a bod cytundeb i gynnal cynhadledd y DU, gellid ei chyfuno â chynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn Aberystwyth.

21. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth (SMH): cadarnhau dyddiad y gynhadledd, sef 10-11 Medi gydag Aberystwyth.**
22. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth: gofyn i'r bartneriaeth ehangach am themâu posib ar gyfer y gynhadledd (Grŵp Llywio i anfon syniadau erbyn dydd Gwener 16 Tachwedd).**

Papur 14: Materion yn ymwneud â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Canllawiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Cymru yn addasu Atodiad H o Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru er mwyn ei wneud yn haws i'w darllen.

Cytunwyd bod hyn yn syniad da ond y dylai'r Grŵp Llywio gymeradwyo'r fersiwn terfynol cyn iddo fynd allan. Cytunwyd ynglŷn â dyrannu rhywfaint o gyllideb Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer y dasg hefyd.

Dylid cysylltu â'r Gweinidog er mwyn cael rhagair fel bod y ddogfen yn edrych yn fwy swyddogol.

23. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth (JK): drafftio'r daflen i'w chymeradwyo gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yng ngwanwyn 2008.**

Datblygu cynaliadwy

Codwyd mater diffyg sylw/ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn yr agenda datblygu cynaliadwy. Mae dogfen y Strategaeth Gymunedol yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd ac mae'n ddiffygiol iawn o safbwynt bioamrywiaeth.

24. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth (JK): anfon copi o'r ymgynghoriad ar y strategaeth gymunedol i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 23 Tachwedd 2007.**

Roedd ARENA'n arfer cynnig cyngor ynglŷn â gwastraff ac ynni, ond erbyn hyn maent yn cynnig cyngor ar fioamrywiaeth hefyd. Gellid cysylltu â hwy i ofyn am bapur ar gyfer Grŵp Llywio 4.

25. **Cam Gweithredu i'r Ysgrifenyddiaeth: cysylltu ag ARENA ynglŷn â phapur Grŵp Llywio 4.**

JK – byddai'n fuddiol gwybod pwy sydd ar ba grwpiau polisi fel bod modd inni roi sylw i unrhyw fylchau a datblygu negeseuon craidd yn ymwneud â Bioamrywiaeth.

26. **Cam Gweithredu i Bawb: cysylltu â'r ysgrifenyddiaeth i ddweud ar ba grwpiau polisi strategol rydych yn eistedd a pha grwpiau eraill yr ydych yn ymwybodol ohonynt fel bod modd inni weld pa feysydd sy'n cael sylw gan aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.**

Papur 15: Materion Canolfannau Cofnodion Lleol

Cymru sydd â'r rhwydwaith llawn cyntaf o Ganolfannau Cofnodion Lleol yn y DU, ond roedd y papur yn nodi bod y rhwydwaith yn fregus.

Nid oes llawer o gydlynu strategol o ran y ffordd y mae'r Canolfannau'n datblygu.

Mae arnynt angen mwy o ddata. Mae'n bwysig bod pawb yn rhannu eu data gyda'r Canolfannau gan fod y deilliannau'n dibynnu'n llwyr ar y data.

27. **Cam Gweithredu i RT: Roy i gysylltu â Dŵr Cymru i drafod y cofnodion.**
28. **Cam Gweithredu i TS: helpu RT (a Chanolfannau Cofnodion Lleol eraill) i gael gafael ar ddata'r RSPB**

Mae angen sefydlu trefniadau dilysu gan fod llawer o ddryswch o hyd ynglŷn â beth i'w wneud â chofnodion gan unigolion.

Nid oes cenhedlaeth newydd sy'n cofnodi mewn dull cyson, ac mae hyn yn bryder mawr o safbwynt y dyfodol.

Eitem 16: Pwyllgor Sefydlog y DU

Roedd y materion na roddwyd sylw iddynt yn gynharach yn y cyfarfod yn faterion ac adroddiadau rhyngwladol. Sylwer y bydd rownd adrodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2008 (yn seiliedig ar hen restr Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU) yn cyfrannu at adroddiad 2010 y DU, ond os bydd unrhyw ddangosyddion sydd wedi'u diweddaru ar gael gellir cynnwys y rhain hefyd yn adroddiad 2010.

Penderfynwyd y bydd cloriau cyhoeddiadau Partneriaeth Bioamrywiaeth y DU yn dal i ddefnyddio ffurf dogfen "Conserving Biodiversity: the UK Approach" a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda 4 llun, un o bob gwlad.

Eitem 17: Cofnodion a Chamau Gweithredu

Dylai nodi Deb Spillards, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Ychwanegu dyddiadau a gadarnhawyd ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru (7-15 Mehefin 2008)
Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â BARS: yn gywir bod Loraiza Davies yn ymwneud â BARS ac mai dim ond Natural England sy'n ei chynnal.
Cam Gweithredu 1: yn mynd rhagddo
Cam Gweithredu 18: Gohiriwyd tan gyfarfod mis Chwefror
Cam Gweithredu 29: ddim yn mynd i gynhyrchu canllawiau manwl nes bydd cytundeb gyda'r sefydliadau ynglŷn â'r broses BARS
Cam Gweithredu 37: Dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, tynnu'r cynnig yn ôl
Cam Gweithredu 40: newid i "Mae Dangosydd Perfformiad Awdurdodau Lleol (Lloegr) yn ymwneud â rheoli safleoedd lleol ac mae i'w fesur gan Bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol"
Cam Gweithredu 41: yn argymell Mike Bruford fel cynrychiolydd Cymru ar BRAG – Yr Ysgrifenyddiaeth i holi sut mae'r cam gweithredu hwn yn mynd yn ei flaen

Unrhyw Fater Arall:

Dyddiad y cyfarfod nesaf - wedi'i newid i 20 Chwefror 2008. Broneirion yw'r lleoliad o hyd.

Dyddiad cyfarfod mis Gorffennaf – awgrymu o fewn pythefnos gyntaf mis Gorffennaf cyn dechrau gwyliau'r ysgol. Dylid cael lleoliad yn Ne Cymru y tro hwn.

29. **Cam Gweithredu i Bawb: os gall unrhyw un gynnig lleoliad ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth. Mae angen lle i 40 o bobl yn yr ystafell.**

Cyfieithu

30. **Cam Gweithredu i Bawb: gan na ddewisodd neb siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod hwn, a fyddai'r bobl sy'n siarad Cymraeg gystal â chysylltu â'r ysgrifenyddiaeth i ddweud a fyddent yn hoffi i'r cyfieithydd fod ar gael yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ym mis Chwefror.**

Cynhelir gweithdy'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yng Nghymru ar 24 Ionawr yn y Canolbarth (cysylltwch â: Helen Wilkinson, H.Wilkinson@ccw.gov.uk)
Pwrpas:

· Ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys unigolion perthnasol er mwyn datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer mynediad at adnoddau gwybodaeth i Gymru y gall partneriaid Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei chefnogi.

Nodau

· Partneriaid i ddatblygu a deall cynlluniau gwybodaeth amgylcheddol sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru a'r DU
· Nodi partneriaid allweddol (sy'n ymwneud â gwybodaeth am fioamrywiaeth) yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU

· Cytuno ar strategaeth gyffredinol ar gyfer mynediad at wybodaeth amgylcheddol yng Nghymru â chefnogaeth partneriaid allweddol
· Cytuno ynglŷn â'r camau nesaf sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r strategaeth
· Asesu a fyddai Cymru'n elwa o rwydwaith bioamrywiaeth cenedlaethol bach o bartneriaid allweddol yng Nghymru
· Cytundeb gan bartneriaid i ymrwymo i safonau a chanllawiau cytunedig ar gyfer rheoli data amgylcheddol yng Nghymru
· Cytundeb gan bartneriaid i ymrwymo i gefnogi a defnyddio cynlluniau rhannu gwybodaeth amgylcheddol

Byddai **Plantlife** yn hoffi cael cefnogaeth gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a chael defnyddio logo'r Bartneriaeth ar y rhestr goch newydd o blanhigion fasgwlaidd yng Nghymru.

31. **Cam Gweithredu i Plantlife (TD): anfon copïau o'r rhestr goch o blanhigion fasgwlaidd yng Nghymru at aelodau Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn iddynt gael gweld a allant gymeradwyo cefnogaeth gan y Bartneriaeth.**

Fforwm newydd yng Nghymru – Cyswllt Planhigion Cymru – ar gyfer sefydliadau planhigion a ffyngau, yn cynnwys strategaeth isblanhigion ar gyfer Cymru. Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gael (trevor.dines@plantlife.org.uk)

Canlyniadau bioamrywiaeth TS – awgrymodd y dylem gael adroddiadau yn nodi sut y mae rhywogaethau neu gynefinoedd yn dod yn eu blaenau fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth fel bod pawb yn gallu cael rhyw syniad ynglŷn â pha mor llwyddiannus yw camau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru.

32. **Cam Gweithredu i Bawb: Cytunwyd y dylid rhoi cyflwyniad ar gynnydd/canlyniadau ar gyfer grŵp tacsonomig penodol ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Llywio. Gadewch i'r ysgrifenyddiaeth wybod pe baech yn gallu rhoi cyflwyniad o'r fath, ac ar ba bwnc.**